



**Adroddiad Cyfarfod**

**08:02:23**

**Nia Wyn Williams**

### **Cofnodion Pwyllgor Merched y Wawr 8fed Chwefror**

- Yn dilyn cais gan yr ysgol i newid dyddiad y gallent ddod atom i'n diddanu mewn bore coffi i ddiwedd mis Mawrth, trafodwyd os oeddem am gario ymlaen efo'r trefniant. Teimlwyd ei bod braidd yn chwithig i ddatlu'r Wyl ddiwedd Mawrth, felly penderfynwyd i beidio a mynd ymlaen efo'r trefniadau. Gwenan i gysylltu efo'r ysgol i rannu'r penderfyniad.
- Gan mai dyma a oedd ein cyfle i gyfarfod fel Cangen ar gyfer Mis Mawrth, penderfynwyd cyfarfod ar yr 8fed gyda noson gymdeithasol a chawl. Gwenan i gysylltu efo'r aelodau i rannu'r gwybodaeth
- Trafodwyd trefnu 'noson gyfnewid' gyda'r elw at Eisteddfod Llŷn ac Ffionydd. Penderfynwyd ar y 3ydd neu'r 4ydd o Fai fel noson (yn ddibynol ar argaeledd y Neuadd). Cynnigwyd ein bod yn rhannu'r noson efo cangenau eraill yn y cylch e.e. Llanrug. Gwenan i fwcio'r neuadd at y dyddiadau uchod

### **Gwybodaeth a rannwyd yn y cyfarfod**

1. Bowlio 10 Rhanbarth Arfon - Nos Wener, Ebrill 28ain am 6.30 yng Nghanolfan Glasfryn, Y Ffôr. Angen trefnu fîm i'n cynrychioli.
  2. Neges gan Cwmni Fran Wen - 'Dwi'n cysylltu i adael i aelodau Merched y Wawr Cangen Bethel wybod y bydd Croendena, drama newydd Frân Wen yn ymweld â Galeri, Caernarfon ar 20-21 Chwefror.
- Gŵyl Haf – 2023 – Llenyddol – Dyddiad Cau Mawrth 1af/Canlyniadau Mai 20fed
  - Tlws Llenyddol Ann Lewis; "Y Ddinas"
  - Stori Feicro; "Cartref"
  - Erthygl sy'n addas ar gyfer Cylchgrawn Y Wawr; "Cymeriad neu Gymeriadau"
  - Mae gwybodaeth pellach ar gyfer cystadlaethau Gŵyl Haf/ Chwaraeon / Sioe Llanellwedd ar gael ( cysylltwch a Gwenan)

### 3. **Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd**

- Y mae'r rhanbarthau yn trefnu côr Merched y Wawr (dal angen arweinydd) a fydd yn perfformio ar lwyfan y maes 12 o'r gloch ddydd Mercher
- Fe fydd y llyfrau raffl yn dod allan yn fuan
- Pabell Merched y Wawr - y mae cyfle i wahodd rhywun o'r tu allan i lansio llyfr/ cynnal digwyddiad os y dymunir
- Angen i bob cangen gyflwyno rhywbeth i ategu at y baneri a fydd yn y babell ar y thema llwybrau ar unrhyw gyfrwng ( Pwyllgor Celf a Chrefft)
- Fe ddaw rota gneud paned allan y fuan

### **Nia Wyn Williams**

Daeth yr aelodau ynghyd yn neuadd yng ngwmni Nia Wyn Williams a oedd yn trafod 'Trysorau'r Teulu'. Cawsom gyfle i rannu rhai o'n trysorau ein hunain, ambell wrthych a ymddangosai yn ddi nôd yn llawn hanes ac atgofion, yn ein atgoffa nad yng ngwerth ariannol ma gwir werth ein creiriau. Fe ddaeth un neu ddwy a darnau o aur, ac yr oedd gan Nia glorian arbenning i'w pwyso ac i roi amcan gyfrif o'u gwerth – gyda pris aur wedi codi yn ddiweddar, cerwch i chwilio, hwyrach y bod gennych chi rhyw drysor cudd yn rhywle! Cafodd Nan ac Eryl y dasg o ddyfalu pa wrthych oedd y mwyaf gwerthfawr – ac yr oeddent yn llygad eu lle - yn ddwy yn gwybod yn iawn be di be! Diolchodd Anita i Nia ar ran y gangen, a cafwyd baned gan Mair Read, Cecile ac Eirlys gyda Anne Elis yn ennill y raffyl.

Deallir fod Eirys Sharpe wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar - Penblwydd Hapus!

Anfonwyd cofion at Robin Stad Eryri, ac Ieuan Llain yr Ardd a fu yn yr Ysbyty yn ddiweddar, a dymunwyd pob gwellhad i Tomos Alun sydd bellach yn cael gofal yn Ysbyty Eryri.

Byddwn yn ddathlu Gŵyl Ddewi yn ein cyfarfod yn y Neuadd ar yr 8fed o Fawrth